# Hysbysiad Preifatrwydd — Ein Cwsmeriaid

## Sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio

1. Fel eich landlord, bydd angen i ateb gadw a phrosesu gwybodaeth amdanoch er mwyn sicrhau bod modd i ni ddarparu gwasanaethau i chi yn unol â'ch cytundeb tenantiaeth. Dim ond at ein dibenion rheoli a gweinyddu ni y defnyddir y wybodaeth y byddwn yn ei chadw ac yn ei phrosesu. Byddwn yn ei chadw ac yn ei defnyddio i'n galluogi i redeg y busnes a rheoli ein perthynas â chi yn effeithiol, yn gyfreithlon ac yn briodol yn ystod y cyfnod y byddwch yn denant i ni ac am gyfnod wedi i'ch tenantiaeth ddod i ben.
   Os na fyddwch yn darparu'r data hwn mae'n bosibl, mewn rhai amgylchiadau, na fydd modd i ni gydymffurfio â'n rhwymedigaethau.

2. Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol hefyd i gontractwyr a sefydliadau eraill yr ydym yn dibynnu arnynt i ddarparu gwasanaeth i chi ar ein rhan.

3. Fel Grŵp, mae'n bosibl y bydd angen weithiau i ni brosesu eich data er mwyn mynd ar drywydd ein buddiannau busnes dilys, e.e. er mwyn atal twyll, gweinyddu neu adrodd ynghylch troseddau posibl. Mae ein buddiannau dilys fel a ganlyn:

   a. *Sicrhau bod gofynion eich cytundeb tenantiaeth yn cael eu bodloni*
   b. *Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, e.e. darparu gwybodaeth i Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi/yr Adran Gwaith a Phensiynau/yr Heddlu*
   c. *Cydymffurfio â gofynion rheoleiddio Llywodraeth Cymru*
   ch. *Sicrhau eich iechyd, eich diogelwch a'ch lles*
   d. *Darparu gwybodaeth weithredol a gwybodaeth reoli*
   dd. *Cadarnhau neu gyflwyno hawliadau cyfreithiol neu'n hamddiffyn rhag hawliadau o'r fath*
   e. *Gwarchod eich buddiannau allweddol i fywyd, h.y. darparu data personol neu ddata personol sensitif amdanoch i'r gwasanaethau brys os oes damwain neu ddigwyddiad*
   f. *Diogelu oedolion a phlant agored i niwed*
   ff. *Atal a chanfod twyll neu drosedd*
   g. *Hyrwyddo ein gwasanaethau a'n gweithgareddau.*

Ni fyddwn fyth yn prosesu eich data os yw eich buddiannau chi'n bwysicach na'r buddiannau a restrir uchod.

4. Chi fydd wedi darparu llawer o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch ond, mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd yn dod o ffynonellau eraill megis yr Awdurdod Lleol, Gwasanaethau Iechyd neu'r Heddlu.

5. Mae'r math o wybodaeth sydd gennym yn cynnwys:
    a. eich cais am dŷ (sy'n cynnwys geirdaon a gwybodaeth arall sy'n cefnogi eich cais, e.e. Asesiadau Iechyd Galwedigaethol, dogfennau adnabod)
    b. eich cytundeb tenantiaeth a gwybodaeth y mae ei hangen arnom er mwyn ei reoli, e.e. manylion cyswllt, gwybodaeth am aelodau eraill eich aelwyd ac am unrhyw anghenion arbennig neu anghenion o ran cymorth a allai fod gennych, y mae angen i ni wybod amdanynt er mwyn rheoli'r cytundeb â chi yn effeithiol
    c. gohebiaeth â chi neu amdanoch, e.e. llythyrau atoch am newid i'ch rhent neu'ch hawl i fudd-daliadau lles
    ch. eich manylion cyswllt a manylion cyswllt y sawl y dylid cysylltu â nhw mewn argyfwng
    d. cofnodion am wasanaethau yr ydym yn eu darparu i chi, e.e. gwaith atgyweirio a chyfriflenni rhent
    dd. gwybodaeth y mae ei hangen er mwyn monitro cyfle cyfartal
    e. lluniau ohonoch y gallent fod wedi'u recordio ar ein systemau teledu cylch cyfyng
    f. recordiadau o alwadau ffôn i'n swyddfeydd (rhai a wnaed gennych chi a gennym ni)
    ff. cofnodion yn ymwneud ag adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol ac euogfarnau troseddol neu unrhyw ymddygiad difrïol yr adroddwyd yn ei gylch gan staff ateb, contractwyr ateb ac eraill
    g. atgyfeiriadau a wnaed at asiantaethau eraill mewn achosion lle gallai fod angen cymorth a chyngor arbenigol
    ng. cofnodion cyfarfodydd allanol y gallem fod yn eu mynychu fel eich landlord ac fel darparwr cymorth, lle bo'n berthnasol.
    h. mae'n bosibl y byddwn yn gosod systemau mewn eiddo, sy'n monitro perfformiad yr eiddo, e.e. y defnydd o ynni, ansawdd yr aer. Bydd y wybodaeth a gaiff ei chasglu a'i chynnwys mewn adroddiadau yn ymwneud â pherfformiad yr eiddo yn unig, ac ni fydd yn golygu prosesu data personol.

6. Os byddwn yn prosesu categorïau arbennig o wybodaeth am eich tarddiad ethnig neu hiliol, eich credoau crefyddol neu'ch cyfeiriadedd rhywiol, byddwn bob amser yn cael caniatâd penodol gennych i wneud hynny, oni bai bod prosesu'r wybodaeth honno'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Os byddwn yn prosesu data ar sail y ffaith ein bod wedi cael caniatâd gennych, bydd gennych yr hawl i dynnu'r caniatâd hwnnw'n ôl unrhyw bryd.

7. Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y byddwn yn datgelu gwybodaeth amdanoch i drydydd partïon:
    a. Os oes yn rhaid i ni wneud hynny'n ôl y gyfraith, e.e. er mwyn atal trosedd ac anhrefn neu gydymffurfio â rheoliadau.
    b. Er mwyn gwarchod eich buddiannau allweddol i fywyd chi neu fuddiannau allweddol i fywyd aelod(au) o'ch teulu.
    c. Er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau i chi dan gontract, e.e. gallai fod angen i ni rannu gwybodaeth benodol â'n contractwyr cynnal a chadw er mwyn iddynt allu cwblhau gwaith atgyweirio.

ch. Pan fydd eich tenantiaeth yn dechrau neu'n gorffen, os byddwch yn methu â rhoi gwybod i gwmnïau cyfleustodau (nwy, trydan, dŵr) am eich meddiannaeth neu am ddiwedd eich tenantiaeth, byddwn yn rhannu â chwmni cyfleustodau (ar ôl cael cais am daliad) eich cytundeb tenantiaeth fel prawf o'ch meddiannaeth, eich enw a dyddiadau eich meddiannaeth, er mwyn sicrhau bod biliau'n cael eu cyfrifo'n gywir.

8. Mae'n bosibl y byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth amdanoch i gwmnïau eraill y Grŵp at ddibenion sy'n gysylltiedig â'ch tenantiaeth.

9. Mewn amgylchiadau cyfyngedig ac angenrheidiol, mae'n bosibl y caiff eich gwybodaeth ei throsglwyddo y tu allan i'r DU i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu i sefydliad rhyngwladol er mwyn cydymffurfio â'n gofynion cyfreithiol neu'n gofynion dan gontract. Mae gennym fesurau diogelu ar waith, sy'n cynnwys systemau diogelwch ar ddrysau er mwyn caniatáu mynediad i bobl ag awdurdod, a systemau wal dân fewnol er mwyn caniatáu mynediad o'r tu allan i'n systemau tai.

10. Mae nifer o bethau'n effeithio ar hyd y cyfnod y gallwn storio eich data personol ac mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio cyfnodau cadw gwahanol, yn dibynnu ar y math o ddata sydd gennym. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn ein Rhestr Cyfnodau Cadw sydd ynghlwm wrth ein Polisi Diogelu Data, sydd i'w gweld ar y wefan ac sydd ar gael o ofyn amdanynt.

11. Os yw'n fwriad gennym, yn y dyfodol, brosesu eich data personol at ddiben ar wahân i'r diben y cafodd ei gasglu ar ei gyfer, byddwn yn rhoi gwybodaeth i chi am y diben hwnnw ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

12. Os byddwn yn gwneud newid mawr i'r hysbysiad preifatrwydd hwn, byddwn yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i chi am y newid.

## Eich hawliau

13. Dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (Y DU) a Deddf Diogelu Data 2018, mae gennych sawl hawl sy'n ymwneud â'ch data personol. Mae gennych yr hawl i ofyn i ni am fynediad i'ch data personol a'r hawl i ofyn i ni gywiro neu ddileu eich data personol, yr hawl i gyfyngu ar y prosesu a wneir, yr hawl i wrthwynebu unrhyw brosesu ac, mewn rhai amgylchiadau, yr hawl i gludadwyedd data.

14. Oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol, bydd unrhyw fynediad i ddata gan y testun ac unrhyw geisiadau am fynediad i ddata gan y testun yn cael eu darparu'n electronig. Rydym yn cadw'r hawl i godi ffi weinyddu am ddarparu copïau caled. Gofynnir am ddogfen adnabod hefyd fel mesur diogelwch er mwyn cadarnhau mai chi ydych chi.

15. Os ydych wedi rhoi caniatâd i ni brosesu eich data, mae gennych yr hawl (mewn rhai amgylchiadau) i dynnu'r caniatâd hwnnw'n ôl unrhyw bryd heb fod hynny'n effeithio ar gyfreithlondeb y prosesu a ddigwyddodd cyn i chi dynnu eich caniatâd yn ôl.

16. Mae gennych yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os ydych yn credu nad ydym wedi cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ynghylch diogelu data yng nghyswllt eich data personol.

## Pwy yw'r rheolydd data a'r Swyddog Diogelu Data a beth yw eu manylion cyswllt

17. At ddibenion y ddeddfwriaeth ynghylch diogelu data, ateb Group Limited yw'r rheolydd a'r prosesydd data (gweler pwynt 7 ar gyfer proseswyr data ychwanegol).

18. Os oes gennych unrhyw bryderon am y modd y mae eich data'n cael ei brosesu, gallwch gysylltu â:

    Ceri Morgan
    Tŷ Meyler
    St Thomas' Green
    Hwlffordd
    SA61 1QP

    01437 763 688
    mydata@atebgroup.co.uk
    www.atebgroup.co.uk

**Adolygwyd: Chwefror 2025**